



Cofnodion Cryno Cyfarfod y Bwrdd, 28 Ebrill 2017

Yn bresennol:

Yr Ysgrifennydd Parhaol
(Cadeirydd)
Gawain Evans
Owen Evans
Andrew Goodall
Peter Kennedy
Natalie Pearson
David Richards
Elan Closs Stephens
James Turner
Ann Keane
James Price
Sioned Evans
Sarah Rhodes
Jeff Godfrey
Adrian Webb

Yn mynychu:

Des Clifford (Eitem 2)
Piers Bisson (Eitem 2)
Jo Salway (Eitem 3)
Toby Mason (Eitem 3)
Gary Haggaty (Eitem 4)
Rebecca Isted (Eitem 4)
Caren Fullerton (Eitem 5)
Janine Pepworth (Eitem 5)

Ymddiheuriadau:

Gillian Baranski

Ysgrifenyddiaeth:

Emma Alexander
Sarita Marshall

Perfformiad Llywodraeth Cymru**1. Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)015]**

1.1 Cyflwynodd Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid, bapur yn amlinellu sefyllfa ariannol agoriadol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, gan gynnwys syniad cynnar o'r pwysau a nodwyd a'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael. Cytunwyd y dylai'r Bwrdd drafod rheoli'r sefyllfa, gan gynnwys ymrwymadau a chyfathrebu presennol, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

2. Y Trefniadau Pontio Ewropeaidd [ar lafar]

2.1 Rhoddodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog, a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr – Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau'r Trefniadau Pontio'r UE. Adroddwyd bod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddarllen yn eang gan gydweithwyr y Ewrop.

- 2.2 Gan na fyddai manylion y Bil Diddymu Mawr yn hysbys tan ar ôl y cyhoeddiad am yr Etholiad Cyffredinol, roedd swyddogion yn paratoi trwy lunio'r prif benderfyniadau y byddai angen eu gwneud cyn y toriad, yn ogystal ag yn y tymor hir. Nodwyd pwysigrwydd cysylltiadau dwyochrog â swyddogion Llywodraeth y DU.

3. Monitro Cynnydd ar Ddarparu - y Newyddion Diweddaraf am Strategaethau Trawsbynciol [ar lafar]

- 3.1 Mynegodd yr Ysgrifennydd Parhaol mor ddiolchgar oedd hi am y gwaith a wnaed gan y Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol/y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'u timau ar draws y sefydliad i ddatblygu'r Strategaethau. Tanlinellodd rôl y Bwrdd o ran cefnogi'r sefydliad i weithredu ar y Strategaethau at y dyfodol, trwy fonitro'r cynnydd a herio'r gwaith sy'n cael ei wneud.
- 3.2 Rhoes Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar y cynnydd a wnaed. Câi'r Strategaethau eu cyhoeddi fel un ddogfen bwrpasol ac uniongyrchol, er na fyddent yn cael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Bydda'r Bwrdd yn monitro cynnydd yn rheolaidd er mwyn gyrru perfformiad.
- 3.3 Llongyfarchodd y Bwrdd Jo a'i thîm am y gwaith a wnaed, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod y themâu yn wirioneddol drawsbynciol er mwyn cefnogi darparu blaenoriaethau'r Llywodraeth.
- 3.4 Nodwyd bod rhaid i'r Strategaethau gael eu gwreiddio yng ngwaith y sefydliad, o'r broses gynllunio i'r amcanion unigol. Dylai gwaith Archwilio Mewnol gael ei ailalinio hefyd i gefnogi'r dull trawsbynciol.

Corfforaethol

4. Strategaeth Ddrafft ar Iechyd a Llesiant [Bwrdd (17)016]

- 4.1 Cyflwynodd Gary Haggaty, Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant, a Rebecca Isted, Uwch Bartner Busnes Adnoddau Dynol, y Strategaeth Ddrafft ar Iechyd a Llesiant, gan nodi'r potensial i ehangu'r gwaith ymhellach i ystyried arweinyddiaeth a diwylliant a'r angen i ystyried a oedd digon o adnoddau ar gael mewn meysydd perthnasol i gwblhau'r holl weithgarwch y mae ei angen. Cafodd y Bwrdd wybod bod ymgysylltu wedi bod â staff ar draws y sefydliad a bod hyn wedi'i wneud ar y cyd ag Ochr yr Undebau Llafur.
- 4.2 Cafodd y Bwrdd wybod bod cefnogaeth ar draws y sefydliad i'r Strategaeth. Roedd y Pwyllgor Gweithrediadau wedi'i groesawu ac roedd y diwygiadau a awgrymwyd ganddynt wedi'i hymgorffori yn y Strategaeth.
- 4.3 Roedd y strategaeth yn ceisio hybu perthynas effeithiol, llawn ymddiriedaeth rhwng staff a rheolwyr, a chytunwyd y byddai angen mynd i'r afael â hyn trwy'r gwaith galluogrwydd yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y byddai modd mynd i'r afael â mater cadernid personol yn y gwaith hwn.

- 4.4 Diolchodd y Bwrdd i Gary a Rebecca am ysgwyddo'r gwaith. Bu iddynt gytuno bod y canolbwynt ar lesiant yn amserol a bod hwn yn ddarn o waith amserol ac angenrheidiol. Cytunwyd hefyd y byddai angen blaenoriaethu'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Gweithredu.
- 4.5 Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig a chytuno ar y canlynol:
- Rhoddid i'r Pwyllgor Gweithrediadau'r dasg o fonitro a gwerthuso'r Strategaeth.
 - dylai cynllun ymgysylltu a chyfathrebu strategol ar lechyd a Llesiant gael ei ddatblygu

5. Y Diweddaraf am TGC [Bwrdd(17)017; Bwrdd(17)018]

- 5.1 Rhoddodd Caren Fullerton, y Prif Swyddog Digidol, y newyddion Diweddaraf am TGCh, gan gynnwys cadernid TGCh a Chynllun Gweithredu Digidol drafft Llywodraeth Cymru 2017-20.
- 5.2 Cafodd y Bwrdd wybod y byddai'r Cynllun Gweithredu Digidol ar ei newydd wedd yn cael ei gydgyssylltu gan dîm cyflawni o fewn model cyflawni wedi'i ffedereiddio. Cafodd pwysigrwydd sicrhau mecanwaith ar gyfer cydweithredu er mwyn osgoi darnio, gan rymuso'r Prif Swyddog Digidol i sicrhau cyflawni, a'r dewisiadau ar gyfer ariannu a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.
- 5.3 Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Gweithredu Digidol a chytuno ar y canlynol:
- Dylai'r themâu a'r blaenoriaethau yn y Cynllun fwydo i mewn i gynlluniau gweithredu lleol.
 - dylai'r risgiau a danlinellir yn y papur ynghlwm gael eu tynnu i sylw'r Gweinidogion cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi.
 - dylid amserlennu trafodaeth bellach gan y Bwrdd ar fuddsoddiad a galluogrwydd presennol ac yn y dyfodol.
- 5.4 Diolchodd y Bwrdd i'r Prif Swyddog Digidol a'i thîm am eu gwaith ar y meysydd hyn.

Eitemau Rheolaidd

6 Cofnodion drafft cyfarfod 31 a'r Materion sy'n codi [Bwrdd(17)019]

- 6.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth yn gywir.

7 Eitemau'r yr Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [ar lafar]

Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol

- 7.1 Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Bwrdd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Bwrdd y byddai'n ystyried cylch gwaith Is-bwyllgorau'r Bwrdd fel cam nesaf.
- 7.2 Trafodwyd cylchredeg y Gofrestr Risg Corfforaethol hefyd, ac fe gytunwyd y dylai'r sefyllfa bresennol barhau.

Adroddiadau Eithrio

- 7.3 Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf am y Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Byddai asesiad effaith yn cael ei gynnal a byddai manylion pellach am geisiadau gan y pedwar Grŵp yn cael eu rhoi i arweinwyr Grwpiau. Byddai angen i'r Gweinidogion roi sêl eu bendith i'r penderfyniad terfynol hefyd.

8 Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau

- 8.1 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau fod y cyfarfod diwethaf wedi cael ei gynnal yn swyddfa Caerfyrddin, lle trafodwyd ffeiliau Rhaglenni'r EU, goruchwyllo cyrff hyd braich, Penodiadau Hyblyg, Gweithio'n Hyblyg, a'r Strategaeth Ddrafft ar Iechyd a Llesiant. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i glywed am sut yr oedd cyllid Llywodraeth Cymru'n caei ei wario. Cynhelid y cyfarfod nesaf yn Swyddfa Merthyr.
- 8.2 Cafodd y Bwrdd wybod y byddai Sioned Evans, yn sgil ei phenodi'n Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn camu i lawr fel Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau ac felly fel Aelod o'r Bwrdd.
- 8.3 Llongyfarchodd y Bwrdd Sioned ar ei phenodiad a chofnodi ei ddiolch i'r Prif Weithredwr blaenorol, Damien O'Brien, am ei waith eithriadol.
- 8.4 Cafwyd diweddariad gan Bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys y ffaith bod y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Owen Evans, wedi olynu'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, James Price, ar y Pwyllgor. Yn ei gyfarfod diwethaf, roedd y Pwyllgor wedi croesawu Cyfarwyddwr Awdurdod Cyllid Cymru ac wedi trafod adnoddau Trefniadau Pontio'r UE, Iwfansau dyletswyddau dros dro, a threfniadau ar gyfer hysbysebu swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil.

9. Unrhyw fater arall

- 9.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi, gan gynnwys Dangosfwrdd y Gweithlu. Cytunodd y Bwrdd fod angen cyfathrebu ynghylch y gostyngiad mewn lefelau staffio.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 4 Mai 2017